CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 14 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Burnett (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Cowan, Burnett, Cunnah, Henshaw, Jarvie, R Lewis, Y Cynghorydd Wendy Lewis, Robertson, Smith, Colbran a/ac Robson |

19 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B Jones (Caerffili), S Bradwick (Rhondda Cynon Taf), E George (Rhondda Cynon Taf) a Mrs K Thomas.

20 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

21 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

22 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 1 MEDI I 30 TACHWEDD 2018

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth dros y cyfnod rhwng 1 Medi 2018 - 30 Tachwedd 2018; y Bwrdd Gwaith Amcanion, yr Atodiadau'n rhestru cytuniadau pwysig, gwybodaeth ar gasgliadau, ymholiadau diddorol a chofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 1 Rhagfyr 2017 a 30 Tachwedd 2018.

Wrth grynhoi, eglurodd yr Archifydd bod digwyddiadau canmlwyddiant y Cadoediad wedi cymryd drosodd y gweithgareddau ymgysylltu’n ystod y chwarter; roedd Atodiad V yn rhestru’r gweithgareddau perthnasol eleni, gyda’r rhan fwyaf ohonynt wedi’u cynnal yn ystod y 3 mis diwethaf. Gwelwyd hefyd llawer o gyfranogiad mewn gweithdai ysgolion ac ymweliadau addysgol yn yr Archifau yn ystod y chwarter hwn (518 o fyfyrwyr ysgol a phrifysgol). Er bod hyn yn dda i’w weld ac ar hyn o bryd bod modd rheoli hyn, mae'r pwysau o alw annisgwyl wedi cael effaith ar rannau eraill o'r gwasanaeth. Nododd hefyd ei bod wedi bod yn gynyddol anodd i feddwl am gynllunio ac arloesedd ynghylch cynhyrchu incwm a chadwraeth digidol ac er bod targedau cofnodi derbynion presennol wedi'u cyrraedd doedd dim capasiti i fynd ar ôl y deunyddiau oedd heb eu rhestru yn y Casgliad. I gloi, nododd yr Archifydd bod Archifau Morgannwg yn dal i fod yn wasanaeth o’r radd flaenaf yng Nghymru, ac roedd hyn yn sgil ymdrechion arbennig y staff a’r gwirfoddolwyr er gwaetha'r amgylchiadau ariannol oedd yn gynyddol anodd.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Archifydd a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau’r Cydbwyllgor.

Trafododd yr Aelodau’r ffocws yn y flwyddyn i ddod ar ymweliadau addysgol o Ysgolion Arbennig, gan ofyn sut allent drefnu ymweliadau fel hyn ar gyfer Ysgolion yr oedden nhw’n Llywodraethwyr ar eu cyfer. Eglurodd yr archifydd y byddai’n ddefnyddiol cael rhywun i gyflwyno’r ysgol i’r Gwasanaeth, neu efallai y gallai aelod o staff gynnal ymweliad cychwynnol a gwirio pethau megis hygyrchedd.

Rhannodd yr Aelodau'r adborth positif yr oeddent wedi’u derbyn am y Gwasanaethau Archifau, gan ofyn i hyn gael ei rannu gyda staff hefyd.

Trafododd yr aelodau’r ystod eang iawn o gasgliadau sy’n dod i mewn i’r Gwasanaeth, gan ofyn sut roeddent yn cael eu cyflwyno. Eglurodd yr Archifydd bod yr ystod wedi cynyddu yn sgil lefel y cyhoeddusrwydd sydd gan y gwasanaeth, a’u bod nhw’n cymryd 1 casgliad newydd i mewn bob dydd y maent ar agor. Eglurodd ymhellach bod ychydig o gasgliadau wedi dod gan y Llysoedd Ynadon, ynghyd â llawer mwy gan unigolion oedd yn annisgwyl, a hefyd o glirio tai ac ati.

Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd y gallai’r gwasanaeth gymryd casgliadau ar y raddfa hon cyn iddynt fynd yn llawn. Nododd yr Archifydd eu bod nhw’n iawn o ran lle, pan agorodd yr adeilad roedd ganddo werth 25 mlynedd o le ac roeddent ar y lefel ddisgwyliedig erbyn hyn. Ychwanegodd yr Archifydd y byddai’n dod yn broblem pan fydd yn rhaid talu i greu lle i dderbyn casgliadau.

Nododd yr Aelodau’r cynnydd mewn gwaith addysg, gan ofyn a oedd hyn yn rhywbeth yr oeddent yn mynd ar ei ôl yn ymarferol. Eglurodd yr Archifydd nad oedd yn fwy nag o’r blaen, roedd pobl yn dod o hyd i’r gwasanaeth oherwydd y proffil a’r cyhoeddusrwydd oedd ganddynt; gan ychwanegu gan ei fod yn wasanaeth am ddim roeddent yn cael mwy a mwy o ymweliadau gan ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys ysgolion lleol all gerdded neu fynd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Nodwyd bod y gwasanaeth fel arfer yn derbyn tua pythefnos o rybudd yn unig am ymweliadau o’r fath. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i asesu a fyddai'r ymweliadau hyn yn dod yn broblem yn y dyfodol, ac eglurodd yr Archifydd eu bod nhw'n monitro ac yn rheoli'r sefyllfa ar hyn o bryd; nid yw'r ymweliadau'n digwydd yn ystod gwyliau'r haf a gallent ddechrau cyflwyno system gynllunio/archebu yn y dyfodol os oedd angen. Cytunodd yr Aelodau ei bod hi'n bosibl y byddai angen trefnu'n ddigonol yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau’n falch o weld cynnydd yn nifer yr ymweliadau i’r wefan.

Roedd y Cadeirydd yn falch o ddweud ei bod wedi mynychu cwrs hyfforddiant Ôl-raddedig yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew a bod Gwasanaeth Archifau Morgannwg yn adnabyddus yno, a bod yr Archifydd yn cael ei barchu’n bersonol ac yn broffesiynol.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

23 : MONITRO CYLLIDEB 2018-2019 A CHYNIGION CYLLIDEB 2019-2020

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r alldro refeniw llawn a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Roedd hefyd yn nodi’r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2019/20. Nododd y Swyddogion prif bwyntiau gwybodaeth yr adroddiad gan ddarparu’r crynodeb gwybodaeth canlynol:

Ar gyfer y flwyddyn bresennol, rhagwelir mai cost net darpariaeth y Gwasanaeth Archifau Morgannwg yw £684,226 sy'n cynrychioli gorwariant o £30,226 yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd, sef £654,000.

Nid oes unrhyw ostyngiad o ran cyfraniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer 2019/20. Bydd defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i dynnu i lawr £50,000 yn ariannu'r bwlch yn y gyllideb. Mewn blynyddoedd diweddar, gwelwyd ostyngiad yn y ddibyniaeth hon.

Cynigir defnyddio £50,000 o'r gronfa wrth gefn yn 2019/20 a £25,000 yn 2020/21, ac ar ôl hynny bydd angen adnabod arbedion pellach neu gyfraniadau ychwanegol gan Awdurdodau Eraill sy'n aelodau.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau yn unol â'r isod:

Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o gyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau lleol eraill sy'n aelodau, gan ystyried bod angen ymchwilio a mynd ar ôl hyn cyn gynted â phosibl. Eglurodd y Swyddogion eu bod nhw'n ceisio awdurdod i ddechrau gwaith yn syth gyda swyddogion ariannol yr Awdurdodau Lleol eraill sy'n aelodau i edrych ar hyn yn y tymor canolig.

Gofynnodd yr Aelodau am rhagor o wybodaeth ar Grantiau ac eglurodd yr Archifydd bod MALD yn Grant Llywodraeth canolog sy'n helpu i gyflawni ychydig o brif swyddogaethau'r gwasanaeth, nid yw'n talu amdano yn ei gyfanrwydd ac mae'n seiliedig ar brojectau bob tro.

Nododd yr Archifydd mai'r her fwyaf sy'n wynebu'r gwasanaeth oedd yr ardrethi annomestig, byddai gostyngiad yn y raddfa hon yn helpu'r gwasanaeth fwyaf. Trafododd yr Aelodau a allai'r Cydbwyllgor wneud unrhyw beth i helpu gyda hyn, ac eglurodd yr Archifydd bod dull Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio a bod Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru a Llyfrgelloedd Cymru'n defnyddio dull uniongyrchol ac yn trafod â'r Gweinidog Diwylliant a Llywodraeth Leol, yn cyflwyno'r materion oedd yn digwydd. Nododd yr Archifydd y byddai'n adrodd i'r Cydbwyllgor cyn gynted ag y byddai'n cael adborth, ac y byddai o bosibl yn ceisio cymorth ychwanegol o ran Llywodraeth Cymru a San Steffan.

Ystyriodd yr aelodau ei bod hi'n bosibl y byddai angen trefnu cyfarfod ychwanegol y Cydbwyllgor neu greu is-bwyllgor i edrych ar y broblem hon.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y £100k mewn cronfeydd wrth gefn, gan ofyn a oedd unrhyw waith wedi'i wneud i bennu am ba hyd y gallai'r gwasanaeth redeg ar y cronfeydd wrth gefn hyn yn unig. Nododd y Swyddogion na oedd hyn wedi digwydd, ond roedd yn rhywbeth y gallent edrych arno.

PENDERFYNWYD:

- Nodi sefyllfa blwyddyn lawn a ragamcanwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 fel y cyflwynwyd yn yr adroddiad.

- Argymell derbyn y cynigion drafft ar gyfer cyllideb 2019/20, fel y'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn.

- Argymell bod swyddogion yn bwrw ymlaen i weithio gyda chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol i ddatblygu dull cynaliadwy i'r heriau cyllidebol tymor canolig.

24 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15 Mawrth 2019 am 2.00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm